



Y Tywydd

Dwi'n codi yn y bore
 Ac yn agor drws y tŷ
 Y peth cyntaf dwi am wybod
 Yw sut dywydd ydy hi?

"Sut mae'r tywydd heddiw?"

Mae hi'n stormus ar y moroedd
 Mae hi'n wyntog yn yr ardd
 Ond ar y traethau melyn
 Mae hi'n heulog, poeth a hardd.

Dwi'n deffro yn y bore
 Ac yn agor drws y tŷ
 Y peth cyntaf dwi am wybod
 Yw sut dywydd ydy hi?

"Ydy hi'n braf heddiw?"

Mae hi'n glawio wrth y llynnoedd
 Bwrw eira ar y stryd
 Ond pan mae'n dywydd rhewllyd
 Wel y tŷ yw'r lle i fi.

Poeth
 Oer
 Sych
 Gwlyb

Mae tywydd Cymru yn newid o hyd!
 O hyd!

Mae'r gân yn cyflwyno / The song introduces:
Geirfa / Vocabulary: tywydd / weather

tywydd	(weather)
stormus	(stormy)
gwyntog (wyntog)	(windy)
heulog	(sunny)
poeth	(hot)
braf	(sunny / fair)
glawio	(raining)
bwrw eira	(snowing)
rhewllyd	(icy)
oer	(cold)
sych	(dry)
gwlyb	(wet)

Gerifa gyffredinol / General vocabulary:

codi	(get up)	bore	(morning)
agor	(open)	Drws	(door)
tŷ	(house)	gwybod (wybod)	(know)
moroedd	(seas)	gardd (ardd)	(garden)
traethau	(beaches)	hardd	(beautiful)
deffro	(wake up)		
llynnoedd	(lakes)	stryd	(street)
Cymru	(Wales)		
newid	(change)		

Patrymau iaith / Language Patterns:

Sut dywydd ydy hi? / Sut mae'r tywydd heddiw?
(What's the weather like today?)

Mae hi'n ...	(It is ...)
Pan mae'n ...	(When it's ...)
O hyd	(always)